Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

—

Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

9 Mawrth 2023

Annwyl Delyth,

Ymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw ystyried y canlynol:

- Cyflwr presennol y gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd a ddarperir gan awdurdodau lleol;
- Yr heriau ariannol a gweithredol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gynnal y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn;
- Trefniadau a strategaethau ymadael awdurdodau lleol ar gyfer achosion lle nad yw'r modelau darparu amgen a ddefnyddir yn llwyddiannus;
- Sut mae'r broses o ddarparu gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol yn rhyngweithio â gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd;
- Sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau, a'r manteision canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r modelau hynny;
- Arfer da o ran sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau lleol hamdden a llyfrgelloedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ddiweddar lansiwyd galwad am dystiolaeth a byddwn yn cynnal ymweliadau â chyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd yng ngogledd-ddwyrain Cymru a de Cymru ddydd Iau 16 Mawrth, cyn dechrau sesiynau tystiolaeth lafar ar 23 Mawrth.

Rydw i wedi gofyn i'r tîm clercio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i glerc eich pwyllgor am gynnydd ar y gwaith hwn.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.